motor neurone disease association
cymdeithas clefyd motor niwron

# Addasu Nawr
# Cartrefi Cymru ar gyfer MND

Adroddiad ar ddarparu Addasiadau Tai i bobl sy'n byw gydag MND yng Nghymru

# Crynodeb Gweithredol

## Beth yw Clefyd Niwronau Motor (MND)?

Mae MND yn glefyd angheuol, sy'n datblygu'n gyflym ac yn effeithio ar yr ymennydd a llinyn asgwrn y cefn. Mae'n ymosod ar y nerfau sydd yn rheoli symudiad sy'n golygu nad yw'r cyhyrau yn gweithio bellach. Gall adael pobl yn gaeth i gorff methiedig, yn methu symud, siarad ac anadlu yn y pen draw.

Mae perygl oes person o ddatblygu MND tua 1 mewn 300. Mae chwe pherson y dydd yn cael diagnosis o MND yn y DU ac mae'n lladd chwe pherson y dydd yn y DU. Mae hyn ychydig o dan 2,200 y flwyddyn.

Mae MND yn lladd traean y bobl o fewn blwyddyn o gael diagnosis a thros hanner o fewn dwy flynedd. Mae'n effeithio ar hyd at 5,000 o oedolion yn y DU ar unrhyw un adeg. Mae'n effeithio ar bobl o bob cefndir. Nid oes iachâd iddo.

## Beth yw Cartrefi Cymru ar gyfer MND?

Oherwydd natur gynyddol MND, bydd cyflwr person yn gwaethygu dros amser. Yn y pen draw, bydd angen cyfarpar arbenigol ar bobl ag MND i'w helpu i gynnal urddas ac annibyniaeth.

Nid yw'r rhan fwyaf o gartrefi yng Nghymru yn gymwys i ymdrin ag anghenion newidiol pobl sydd yn byw gydag MND a dyma pam y mae'r broses addasu tai mor bwysig. Fodd bynnag, mae'r broses bresennol wedi methu â bodloni anghenion pobl sydd yn byw gydag MND yn ddigonol ac wedi gadael llawer yn byw mewn tai anniogel neu anhygyrch. Mae rhai pobl ag MND wedi marw tra'n aros i addasidau gael eu gwneud ac mae'r pandemig wedi gwaethygu'r sefyllfa mewn llawer o achosion.

Gobaith Cartrefi Cymru ar gyfer MND yw gweld proses addasiadau wedi ei symleiddio sydd yn gweithio'n llawer gwell a chyflymach ar gyfer pobl ag MND.

## Ein Canfyddiadau

Mae ein hymchwil wedi canfod nad yw'r broses addasiadau bresennol yn addas at y diben.

Mae'n:

- **Hirfaith**; mae'r broses o wneud cais ar gyfer gosod yn llawer rhy hir i bobl â chlefydau sydd yn datblygu'n gyflym fel MND.
- **Yn annheg yn ariannol**; mae cynnal prawf modd ar gyfer addasiadau yn arafu'r broses ymhellach ond mae hefyd wedi cael effaith niweidiol ar fywydau pobl ag MND a'u teuluoedd.
- **Loteri côd post**; mae gan gynghorau gwahanol ddiffiniadau a phrosesau amrywiol sydd yn arwain at anghyfartaledd o ran darpariaeth gwasanaeth ar draws Cymru.
- **Cymhleth**; gan fod darpariaeth gwasanaethau mor amrywiol, ynghyd â'r ffaith fod tua 70 o sefydliadau yn cyflawni addasiadau yng Nghymru, mae'n anodd i bobl ag MND gael gwybodaeth gywir a diweddar yn aml.

Ar hyn o bryd, mae'r broses addasiadau yn gymhleth, yn anghyfiawn, ac yn annheg; ac yn bwysicaf oll, mae'n gadael pobl ag MND mewn cartrefi anniogel ac anhygyrch.

## Ein Hargymhellion

1. Gweithredu **proses gyflym, heb brawf modd** o addasu tai ar gyfer pobl sydd yn byw gydag MND
2. **Monitro ac adrodd ar arfer da a gosod addasiadau yn brydlon** fel y nodir yn Safonau Gwasanaeth Addasiadau Tai Llywodraeth Cymru

> "Rwy'n poeni drwy'r dydd am y rhwystrau o fy mlaen. Sut wyf yn mynd i mewn i'r gawod? Sut gallaf fynd i mewn i'r tŷ bach? Mae'n flinderus iawn. Mae pethau yn cymryd gymaint o amser. Cawsom yr argraff y byddai'r addasiadau'n cael eu gosod yn llawer cyflymach."
>
> **Carol a Ken**

# Tabl Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 2 |
| Beth yw Clefyd Niwronau Motor (MND)? | 4 |
| Prif Ofynion y Gymdeithas MND | 4 |
| Mae Addasiadau Tai yn Hanfodol | 4 |
| Y Broses Addasiadau Bresennol | 5 |
| Heriau i Bobl sydd yn Byw Gydag MND | 6 |
| Prawf Modd | 7 |
| Proses Gyflym | 9 |
| Modelau Arfer Da | 11 |
| Awgrymiadau Ychwanegol | 13 |
| Casgliad | 13 |

## Beth yw Clefyd Niwronau Motor (MND)?

Mae MND yn glefyd angheuol, sy'n datblygu'n gyflym ac yn effeithio ar yr ymennydd a llinyn asgwrn y cefn. Mae'n ymosod ar y nerfau sy'n rheoli symudiad fel nad yw'r cyhyrau'n gweithio bellach. Nid yw MND fel arfer yn effeithio y synhwyrau fel golwg, clyw a chyffyrddiad.

Gall adael pobl yn gaeth i gorff methiedig, yn methu symud, siarad ac anadlu yn y pen draw. Bydd dros 80% o bobl ag MND yn cael anawsterau cyfathrebu, i'r rhan fwyaf mae hyn yn golygu colli eu llais yn gyfan gwbl.

Mae tua 35% o bobl ag MND yn profi newid gwybyddol ysgafn, mewn geiriau eraill, newidiadau i'r meddwl ac ymddygiad. Mae 15% pellach yn dangos arwyddion o dementia blaen-arleisiol sydd yn arwain at newid mwy amlwg mewn ymddygiad.

Mae perygl oes person o ddatblygu MND tua 1 mewn 300. Mae chwe pherson y dydd yn cael diagnosis o MND yn y DU ac mae'n lladd chwe pherson y dydd yn y DU. Mae hyn ychydig o dan 2,200 y flwyddyn.

Mae MND yn lladd traean y bobl o fewn blwyddyn o gael diagnosis a thros hanner o fewn dwy flynedd. Mae'n effeithio ar hyd at 5,000 o oedolion yn y DU ar unrhyw un adeg.

Mae'n effeithio ar bobl o bob cefndir. Nid oes iachâd iddo.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yma.

## Mae Addasiadau Tai yn Hanfodol

Mae addasiadau tai yn hanfodol i sicrhau bod pobl ag MND yn gallu byw'n ddiogel, yn annibynnol, a chydag urddas. Maent yn cefnogi darparu gofal yn agos at y cartref, lleihau pwysau ar wasanaethau rheng flaen fel iechyd a gofal cymdeithasol, a gwella llesiant yr unigolyn a'u teuluoedd.

Yn ôl Dadansoddiad diweddar Llywodraeth Cymru o Wariant ar Addasiadau Tai, nododd defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr y gall addasiadau bach hyd yn oed gael effaith ar ansawdd eu bywyd. Mae adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth yn awgrymu, ar ôl eu cwblhau, bod addasiadau yn arwain at adfer neu fwy o annibyniaeth, gyda sawl ymatebydd bellach yn gallu gwneud pethau'n annibynnol y byddent, yn flaenorol, wedi gorfod cael cymorth gofalwr i'w gwneud.

Mae addasiadau yn gwneud i'r rheiny sy'n eu defnyddio demlo'n llai cyfyngedig i'w cartref. Gall ymatebwyr oedd â reiliau a rampiau wedi eu gosod o amgylch eu cartrefi bellach eu defnyddio'n fwy ac yn nodi mwy o hyder yn symud o amgylch eu cartrefi.

## Prif Ofynion y Gymdeithas MND

1. Er mwyn unioni system gymhleth, anghyfiawn ac annheg addasu tai yng Nghymru, rydym yn gofyn i Aelodau'r Senedd gyflwyno'r achos i'r Gweinidog i: **Weithredu proses gyflym, heb brawf modd o addasiadau tai ar gyfer pobl sydd yn byw gydag MND**
2. **Monitro ac adrodd ar arfer da a gosod addasiadau yn brydlon fel y nodir yn Safonau Gwasanaeth Addasiadau Tai Llywodraeth Cymru**

## Profiad Pat a Graham:

**Mae Pat yn 67 ac mae ganddi MND ac yn byw gyda'i gŵr, Graham.**

"Rwy'n dibynnu ar fy ngŵr am ei fod yn dechrau mynd yn anodd. Mae gennyf sythwr ar fy nghoes ac mae'n mynd yn fwyfwy anodd i wisgo fy esgid, yn arbennig ers y ddau gwymp diwethaf."

Mae addasiadau wedi bod yn hanfodol i les ac annibyniaeth Pat a Graham. Dywedodd Graham wrthym:

"Roedd pethau'n anodd cyn i'r ystafell gawod gael ei gosod. Nid oedd y tŷ yn addas i Pat gael cawod ac felly roeddwn yn ei chodi mewn ffordd a allai fod wedi bod yn broblem er mwyn iddi allu golchi ei hun. Roedd y tŷ bach yn rhy gul gyda'r sinc wrth y drws a'r drws yn rhy dynn i gael cadair olwyn i mewn. Pe na byddai Pat wedi defnyddio'r gadair comôd, byddwn wedi gorfod codi Pat ar y tŷ bach."

"Ers i ni gael ystafell y gawod wedi ei gosod, mae wedi newid y ffordd yr ydym yn defnyddio'r ystafell ymolchi yn gyfan gwbl. Mae ganddi ddrws llydan iawn a



llawer o le am eu bod wedi agor ardal wahanol i fyny. Gyda'r gadair comôd, mae'r sedd yn mynd dros y tŷ bach ac mae'r gawod yn yr un lle felly mae Pat yn aros ar yr un gadair ac rwyf yn ei symud o dan y gawod a gallaf ei gadael hi yno, lle o'r blaen roedd yn rhaid i mi ei helpu am nad oedd digon o le. Mae gan Pat bellach yr urddas o gael cawod ei hun, sef y peth pwysicaf."

“Rhwng Mai 2019 a Chwefror 2020, roedd Ian yn gorfod cael bath gwely am nad oedd unrhyw fodd iddo gael cawod. O fis Hydref 2020 hyd at ei farwolaeth ym mis Chwefror 2021, fe wnaeth fyw a chysgu yn yr un gadair, ddydd a nos dyna’r unig ffordd y gallai fod yn gyfforddus ac yn hapus.”

**Julie ac Ian**

## Y Broses Addasiadau Bresennol

Mae darparu addasiadau i dai yn adlewyrchu’r egwyddorion a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac amcanion a nodwyd yn Ffyniant i Bawb a Chymru Iachach.

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei dogfen Safonau Gwasanaeth ar gyfer Addasiadau i Dai. Nod y safonau oedd nodi lefel y gwasanaethau ar gyfer cyflwyno a gosod addasiadau i dai y gall defnyddwyr y gwasanaeth eu disgwyl, waeth beth fo’u lleoliad daearyddol a’u deiliadaeth.

Bwriad y safonau gwasanaeth oedd sicrhau bod darparwyr y gwasanaeth yn cyflwyno addasiadau i dai mewn ffordd gyson ac i hysbysu defnyddwyr y gwasanaeth o lefel y gwasanaeth y gallant ei ddisgwyl wrth geisio cymorth ar gyfer addasu tŷ.

Mae’r addasiadau wedi eu grwpio i 3 chategori:

- Bach e.e. gosod canllawiau cydio neu ganllawiau grisiau;
- Canolig e.e. cawodydd cerdded i mewn, lifftiau grisiau, rampiau; a
- Mawr e.e. newidiadau strwythurol mawr i eiddo, yn cynnwys estyniadau.

Fodd bynnag, yn ôl Dadansoddiad Gwariant 2021 ymddengys bod amrywiad yn y ffordd y caiff addasiadau maint gwahanol eu diffinio ar draws Cymru. Mae hyn yn golygu y gall dau berson sydd yn cael yr un addasiad ond mewn ardaloedd gwahanol fod yn destun prosesau gwahanol.

Amlygodd y Dadansoddiad y gallai’r diffiniadau uchod fod yn arbennig o ddefnyddiol yn sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth yn cael gwasanaeth unffurf waeth beth fo’u lleoliad, os cânt eu mabwysiadu ar draws Cymru.

Mae dogfen Safonau Gwasanaeth ar gyfer Addasiadau i Dai 2019 hefyd yn datgan y bydd data monitro perfformiad yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio’r fethodoleg casglu data ar gyfer ‘Monitro Data Addasiadau i Dai’ fydd o gymorth i dystiolaeth ddatblygu ar gyflawni safonau’r gwasanaeth. Bydd y data a gesglir trwy’r broses hon yn cael ei gyhoeddi yn flynyddol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddata wedi cael ei gyflwyno eto.

Yn Adroddiad Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol, “Addasiadau heb oedi” cynhaliwyd adolygiad o’r ymarfer cyfredol a nodwyd dau ganfyddiad allweddol:

- Mae angen i systemau presennol ar gyfer cyflwyno addasiadau ddarparu canlyniadau sydd yn canolbwyntio ar y person trwy ymagwedd fwy integredig a chydweithredol tuag at asesu, dylunio a gosod addasiadau; ac
- O ran galw am addasiadau, y rhai mwyaf cyffredin yw cawodydd, lifftiau grisiau a rampiau, yn aml mewn sefyllfaoedd sydd yn syml ac yn hawdd.

## Heriau i Bobl sydd yn Byw gydag MND

Mae llawer o bobl sydd yn byw gydag MND yn gaeth i gartrefi anhygyrch am nad ydynt yn gallu fforddio neu gael mynediad at gymorth ar gyfer yr addasiadau angenrheidiol i’w tai. Mae rhai cleifion wedi marw tra’n aros i addasiadau gael eu gwneud, gyda’r pandemig yn debygol o wneud y sefyllfa’n waeth, gan amddifadu anwyliaid o amser gwerthfawr sydd yn weddill gyda’i gilydd.

Mae’r system ariannu bresennol ar gyfer darparu addasiadau tai yng Nghymru yn gymhleth. Mae hyn yn adlewyrchiad o esblygiad deddfwriaeth, yr amrywiaeth o gyfundrefnau ariannol dros gyfnod hir o amser, cyfranogiad rhanddeiliaid lluosog yn nhrefniadau gofal a chymorth pobl anabl a hŷn. Amcangyfrifir bod tua 70 o sefydliadau

yn cyflawni addasiadau yng Nghymru, gan wario bron £60 miliwn a chynorthwyo dros 32,000 o bobl. Yn ogystal, nid yw'r ffigurau hyn yn cyfleu'r addasiadau tai sydd yn cael eu hunanariannu gan unigolion ar draws Cymru.

Mae'n werth nodi bod y materion hyn wedi cael eu codi 16 mlynedd yn ôl yn Adolygiad Jones o Addasiadau Tai (2005), yn cynnwys grantiau cyfleusterau anabl, lle cafodd y ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) a'r prosesau a'r systemau sydd yn deillio ohono ei ddisgrifio fel rhai "cymhleth iawn".

Mae'r ystod o sefydliadau gwahanol sydd yn darparu mynediad at addasiadau yn cymhlethu'r system ymhellach ac yn ei wneud yn anodd i weithredu a mesur cyflawniad yn erbyn safonau.

Mae'r system bresennol ar gyfer dyrannu arian yn gymhleth ac yn annheg. Fel y daw yn glir yn yr adroddiad hwn, mae system Cymru o addasu tai yn loteri côd post.

## Prawf Modd

### Trosolwg

Ym mis Mawrth 2021, gwnaeth Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol bryd hynny ddatganiad yn ymwneud ag addasiadau tai a phrofion modd:

"Gwyddom fod lleihau rhwystrau fel bod pobl anabl yn gallu cynnal eu hannibyniaeth, diogelwch ac iechyd da yn eu galluogi i barhau i fyw gartref gydag urddas, a bydd hefyd yn lleihau pwysau ar ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. O fis Ebrill 2021, bydd yn symlach i bobl anabl gael cymorth gydag addasiadau bach a chanolig eu maint i'w cartrefi wrth i ni gymryd camau i ddileu'r prawf modd o Grantiau Cyfleusterau Anabl (DFG)."

Gan ymateb i gwestiwn a godwyd gan Mabon ap Gwynfor AS ym mis Gorffennaf 2021 yn ymwneud â bodloni anghenion addasu tai pobl sydd yn byw gydag MND, dywedodd Julie James AS, Gweinidog presennol Newid Hinsawdd ei bod:

"…wedi cynyddu'r cymorth yn sylweddol i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau nad yw'r prawf modd bellach yn berthnasol i Grantiau Cyfleusterau Anabl (DFG) bach a chanolig a bod yr holl ddarparwyr bellach yn gweithio i'r un safonau gwasanaeth sydd yn cynnwys graddfa amser gyson i gwblhau addasiadau."

Mae'n peri gofid ein bod wedi canfod bod rhai awdurdodau lleol yn dibynnu ar ddehongliad caeth o'r datganiad a wnaed gan y Gweinidog ym mis Mawrth lle mae'n datgan y "gall" awdurdodau lleol ddibynnu ar bwerau yn unol â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio 2002 nid bod yn "rhaid" iddynt wneud hynny.

O'n gwaith eirioli ar ran y rheiny sydd yn gwneud cais am addasiadau, ymddengys na fydd rhai awdurdodau lleol yn anwybyddu profion modd hyd nes bod dyletswydd cyfreithiol i wneud hynny.




"Mae'n drueni nad yw'r wlad yn unedig ar hyn, addasiadau tai, mae gan bob cyngor bolisïau gwahanol, a dylent fod ar yr un dudalen i gyd"

**Ces**

## Profiad Richard:



Mae Richard yn 57 ac o Fro Morgannwg. Mae wedi gweithio ym maes amaethyddiaeth ac hedfanaeth trwy gydol ei fywyd. Cafodd ddiagnosis o MND yn 2018 ac mae'n defnyddio cadair olwyn i fynd o gwmpas.

Mae gan Richard brofiad personol o ymdrin ag effaith ariannol addasiadau i dai.

"Un o'r pethau yr wyf wedi cael anhawster gydag ef yw fy mod wedi gorfod talu am bopeth fy hun oherwydd, pan wnaethant asesiad ariannol, dywedodd y gwasanaethau cymdeithasol a'r awdurdod lleol y byddai'n rhaid i unrhyw beth yn y tŷ fod yn fwy na £152,000 cyn y byddent yn rhoi ceiniog tuag ato. Rwyf wedi gwario tua £30,000 ar geisio aros yn y tŷ yma. Rwyf wedi bod yn ffodus bod yr arian hynny gyda fi am fy mod wedi gweithio'n galed trwy gydol fy mywyd. Dyna oedd fy arian wrth gefn ac rwyf wedi gorfod defnyddio fy mhensiwn ar gyfer rhannau ohono."

**"Mae'r addasiadau yr wyf wedi bod eu hangen wedi fy ngalluogi i aros yn fy nghartref fy hun a pharhau'n annibynnol"**

"Nid wyf yn deall pam nad oeddwn yn gymwys am gymorth awdurdod lleol ar gyfer addasiadau i dai. Rwyf wedi gweithio'n galed trwy gydol fy mywyd i gael tŷ braf a chafodd gwerth y tŷ hwnnw ei ystyried er bod gennym forgais mawr arno o hyd ac nid wyf yn ennill ffortiwn ac nid yw fy ngwraig yn ennill llawer."

Pe byddai Richard angen addasiad pellach, bydd yn anodd iawn iddo fforddio'r gwaith.

# Ein Hymchwil

Yn ystod Mai 2021, anfonodd Gymdeithas MND geisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) yn ymwneud ag addasiadau i dai i bob cyngor lleol yng Nghymru. O'r 22 o Gynghorau, derbyniwyd ymateb gan 19.

Dywedodd 10 o'r 19 cyngor nad ydynt yn hepgor prawf modd ar gyfer DFG ac yn seiliedig ar wybodaeth a dderbyniwyd gan bobl sydd wedi eu heffeithio gan MND, yn ogystal â Rhyddid Gwybodaeth, - sy'n golygu bod **y rhan fwyaf o gynghorau yn dal i weithredu prawf modd**.

Dywedodd 8 cyngor eu bod yn hepgor prawf modd o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Ar gyfer addasiadau sydd yn costio llai nag £800
- Ar gyfer addasiadau sydd yn costio llai na £1,000
- Ar gyfer addasiadau sydd yn costio llai na £5,000
- Ar gyfer addasiadau sydd yn costio llai na £10,000
- Os oes gan yr unigolyn fudd-dâl sydd yn cynnwys prawf modd

Wrth archwilio ymhellach, mae'n ymddangos, ar addasiadau tai, bod gwefannau llawer o gynghorau yn aneglur, yn ddryslyd ac yn gyfyngedig o ran y wybodaeth y maent yn ei darparu. Mae hyn yn eu gwneud yn anhygyrch i'r rheiny sydd â phrinder llythrennedd cyfrifiadurol.

Er y gellir disgrifio gwefannau Abertawe a Wrecsam fel rhai enghreifftiol o ran y ffordd y mae ganddynt wefannau clir, hygyrch a thryloyw yn esbonio eu prosesau, y darlun cyffredinol yw bod y rhan fwyaf yn aneglur ar gymhwysedd, gyda darparu addasiadau yn amlwg yn anghyson ar draws Cymru. Mae enghreifftiau o wahaniaethau yn amrywio o gynghorau lle mae prawf modd yn cael ei gynnal ar DFG, i Gyngor Caerffili lle mae defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu hannog i brynu'r addasiadau eu hunain.

Ymddengys bod diffyg dealltwriaeth amlwg o hepgor prawf modd ymysg Swyddogion Awdurdodau Lleol. Am mai dim ond yn ddiweddar y mae'r canllaw hwn wedi newid, efallai bod hyn i'w ddisgwyl, ond dylai gwybodaeth am y newid gael ei adlewyrchu yn yr atebion a roddir i Ryddid Gwybodaeth. Dim ond un awdurdod lleol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, wnaeth gydnabod bod Llywodraeth Cymru yn cynnig newidiadau i brofion modd.

Mae'n nodedig bod rhai awdurdodau lleol yn hepgor ffioedd ond eu bod ond yn gwneud hynny hyd at ryw swm neu'n gwneud hynny o ganlyniad i gyllid allanol. Mae'n amlwg nad oes unrhyw gysondeb ar draws awdurdodau lleol a diffyg gwybodaeth eang o gyfleoedd cyllid amgen.

## Profiad John ac Yvonne:



**Mae John ac Yvonne yn byw yn Sir Gaerfyrddin. Cafodd Yvonne ddiagnosis o MND yn 2012.**

Ychydig dros ddwy flynedd yn ôl, daeth yn amlwg, er mwyn aros yn eu cartref eu hunain, y byddai angen peiriant codi ar Yvonne yn yr ystafell ymolchi, peiriant codi yn yr ystafell wely, a thŷ bach arbenigol. Byddai'r addasiadau hyn yn galluogi Yvonne i gadw ei hurddas a'i hannibyniaeth a byddai hefyd yn galluogi John i barhau'n unig ofalwr iddi.

"Gwnaeth y Therapydd Galwedigaethol yr asesiad a'r argymhellion, gwnes gais i Gyngor Sir Gaerfyrddin am Grant Cyfleusterau Anabl.

Roedd yn broses hir, llawer o ffurflenni i'w llenwi am ein sefyllfa ariannol. Rydym yn teimlo nad oeddem yn flaenoriaeth a roedd yn amlwg nad oeddent yn deall MND. Roedd yn rhaid i mi fynd ar eu hôl nhw am ymateb am eu bod yn cymryd mor hir, i glywed y byddai'n rhaid i ni dalu'r £14,000 cyntaf. Roedd eu cyfrifiadau yn seiliedig ar fy incwm i yn unig ac nid oedd yn ystyried gwariant misol gorfodol fel ein morgais, premiymau yswiriant bywyd, costau cyfleustodau, taliadau cymunedol ac ati.

Roedd y swm a gyfrifwyd fel fy nghyfraniad i nid yn unig yn uwch nag y byddai'r costau wedi bod i wneud y gwelliannau angenrheidiol ond hefyd yn anfforddiadwy, am ei fod y tu hwnt i'r cynilion oedd gennyf. Roedd felly'n amhosibl i mi barhau yn seiliedig ar hyn."

Cyfanswm cost yr addasiadau oedd £11,000.

"Nid oedd gennym y math hynny o arian yn sbâr. Achosodd hyn gryn ofid i ni a phryderon am y dyfodol. Oherwydd roeddwn i wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog o'r blaen, awgrymodd ffrind i'r teulu ein bod yn gwneud cais i Gronfa Les y Lluoedd Arfog (SSAFA), a gwnaethom hynny. Roedd eu hymateb yn gyflym. Roedd angen £11,000, cawsom gyfanswm o £10,000 gan yr SSAFA a Chymdeithas MND. Beth fydd yn digwydd os bydd angen mwy o addasiadau arnom, d'wn i ddim."

# Proses Gyflym

## Trosolwg

Yn 2018, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru bryd hynny, adroddiadau yn awgrymu y byddai safonau gwasanaeth cenedlaethol yn helpu i oresgyn rhai o'r amrywiadau a sicrhau bod pobl anabl ac hŷn yn cael yr un safon o wasanaeth waeth ble maent yn byw, pwy yw eu landlord ac a ydynt yn berchen ar eu cartref eu hunain. Fodd bynnag, nid yw'n glir a ydynt yn darparu fframwaith mesuradwy ar gyfer cyflawni addasiadau oherwydd yr anghysondebau rhwng safonau gwasanaeth Awdurdodau Lleol.

Er gwaethaf croesawu cyflwyno Safonau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru, mae Adolygiad Gwariant Llywodraeth Cymru 2021 yn amlygu'r ffordd y mae'r amser a gymerir i gwblhau proses addasu yn cael ei fesur yn gwahaniaethu rhwng ardaloedd, gan arwain at amserau aros amrywiol iawn. Yr amrywiad mwyaf cyffredin yw rhwng mannau cychwyn, gyda rhai darparwyr yn 'dechrau'r cloc' yn ystod yr ymholiad cyntaf (sydd, mewn gwirionedd, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru) ac eraill yn gwneud hynny pan fydd yr argymhelliad yn cael ei wneud gan therapydd galwedigaethol. Trwy wneud yr olaf, mae'r oedi y soniwyd amdano yn flaenorol gan therapyddion galwedigaethol, yn cael eu cuddio, ac mae'r amserau cyflawni yn edrych yn well nag y maent mewn gwirionedd.

Mae therapyddion galwedigaethol eu hunain wedi nodi oedi a achosir gan rai cymdeithasau tai gan holi am yr angen am addasiad ac yn aml yn oedi neu'n gwrthod rhoi caniatâd, yn ogystal â phryderon cynyddol bod yr amser a gymerir gan sefydliadau cyflawni i brosesu ceisiadau yn cynyddu, yn aml oherwydd pwysau ariannol a gostyngiadau mewn staff. Yn gyffredinol, eu profiad yw bod awdurdodau lleol wedi sefydlu systemau a phrosesau mwy effeithiol i gyflawni addasiadau na'r rheiny a ddefnyddir gan y rhan fwyaf o gymdeithasau tai.

Er enghraifft, mae gwelliannau mewn amserau aros cyfartalog wedi cael eu gweld lle mae gan adrannau tai eu therapyddion galwedigaethol eu hunain. Fodd bynnag, dim ond nifer fach o awdurdodau lleol sydd wedi datblygu ymagweddau integredig tuag at addasiadau i dai, gan ddod â grantiau, syrfewyr adeiladu a therapyddion galwedigaethol ynghyd mewn timau unigol.

Yn hanesyddol, mae casglu data ac adrodd ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd addasiadau i dai yng Nghymru wedi bod yn wael, gan arwain at anallu i greu cymariaethau rhwng ffrydiau cyllid, deall amrywiadau mewn darpariaeth, craffu ar berfformiad ac archwilio effaith ar ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Mae adroddiad 2018 y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus hefyd yn nodi, er gwaethaf y ffynonellau cyllid amrywiol ar gyfer addasiadau i dai, mai dim ond ystod fach sydd o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol sydd yn cael eu hadrodd yn gyhoeddus. Roedd y Pwyllgor hefyd yn poeni, er bod trafodaethau wedi cael eu gwneud ar werth gwerthuso effaith yn well, nid oes unrhyw weithredu wedi digwydd ar ran Llywodraeth Cymru i ddwyn hyn ymlaen.

Daeth rhaglen ENABLE Llywodraeth Cymru â nifer o raglenni ynghyd oedd eisoes mewn gweithrediad ar gyfer cyflawni addasiadau i dai. Mae'r rhain wedi parhau fel o'r blaen yn bennaf ond cafodd ENABLE ei ddylunio i'w symleiddio o dan un 'brand'. Mae ENABLE hefyd yn grant penodol i awdurdodau lleol gyflawni addasiadau bach a chanolig yn gyflymach ac yn hyblyg heb angen bod yn atebol i brosesau DFG. Cafodd ei ddylunio i gyflwyno safonau ac amserau aros tecach yn seiliedig ar lefel yr addasiad yn hytrach na'r grant sydd ei angen. Fodd bynnag, mae anghysondebau yn parhau.

Mae cysondeb yn allweddol i welliant yn y dyfodol. Mae'n rhaid i'r broses addasiadau fod yn ddibynadwy ac yn fesuradwy ar draws ardal ddaearyddol a deiliadaeth er mwyn i holl dderbynwyr gwasanaethau addasu ddisgwyl lefelau gwasanaeth tebyg.

## Profiad Pat a Graham

"Rydym hefyd wedi cael lifft risiau a ramp wedi eu gosod. Mae'r cyfan wedi cymryd o leiaf chwe mis – wyth mis ar gyfer ystafell y gawod – gyda salwch sydd byth yn aros yn llonydd".

"Y peth gydag MND yw unwaith mae eich coesau yn mynd, maent wedi mynd. Nid syrthio ydyw, nid dymchwel. Pe byddai'r ramp wedi cael ei osod yn gynharach, buddai'r buddion wedi bod gymaint yn fwy. Byddem wedi gallu mynd allan llawer mwy gan fod Pat yn gryfach ac ychydig yn fwy symudol. Ond gan ei fod nawr wedi cael ei osod gymaint yn ddiweddarach o ran y salwch, mae'r buddion yn llawer llai. Y tristwch mwyaf i mi yw, yn y chwe mis y gwnaethom aros, y gallem fod wedi gwneud llawer mwy o bethau gyda'n gilydd. Fe wnaethom golli allan ar gymaint."

## Ein Hymchwil

Fel rhan o'n hymchwil i ddarpariaeth addasiadau i dai gan gynghorau lleol yng Nghymru, gofynnwyd hefyd a oes ganddynt broses llwybr cyflym ac, os felly, beth yw'r meini prawf ar gyfer cymhwyso.

O'r ceisidau Rhyddid Gwybodaeth a wnaethom i awdurdodau lleol, fe wnaethom ganfod bod gan 14 allan o'r 19 system llwybr cyflym, er nad oes unrhyw gysondeb o ran meini prawf cymhwyso.

- Hysbysodd 1 Awdurdod Lleol ni ein bod yn defnyddio llwybr cyflym i atal oedi wrth drosglwyddo gofal
- Mae 5 Awdurdod Lleol yn rhoi ceisiadau ar lwybr cyflym ar gyfer cleifion gofal lliniarol
- Mae 5 Awdurdod Lleol yn rhoi cleifion gofal lliniarol ar lwybr cyflym er mwyn cynorthwyo rhyddhau o'r ysbyty
- Mae 3 Awdurdod Lleol yn gwneud hynny ar sail blaenoriaeth a nodir gan Therapyddion Galwedigaethol.

Hysbysodd 5 Awdurdod Lleol ni nad oes ganddynt unrhyw system gais llwybr cyflym.

Oherwydd natur gyflym a datblygol MND, mae mynediad llwybr cyflym at addasiadau yn allweddol i sicrhau y gall pobl ag MND fanteisio i'r eithaf ar yr amser sydd ganddynt ar ôl.

## Profiad Kathy a Tony:

**Mae Kathy yn 70 ac yn byw yng Nghil-y-coed gyda'i gŵr Tony sydd ag MND.**

"Cyflwynodd y therapydd galwedigaethol y cais am Grant Cyfleusterau Anabl (DFG) ym mis Tachwedd 2020, cawsom alwad ffôn yn ystod haf 2021 i ddweud y byddai'r gwaith yn dechrau ym mis Awst 2021".

"Yn ystod y 10 mis yr ydym wedi bod yn aros, mae breichiau a gwddf Tony wedi gwaethygu'n sylweddol. Rwyf yn rhoi cawod i Tony i fyny'r grisiau am ei fod yn haws i mi fynd i mewn gydag ef. Mae gennym fatiau i lawr ond rwy'n poeni y bydd yn llithro a does dim ffordd y byddwn yn gallu ei godi".

"Rwy'n gwybod pa mor gyflym y mae MND yn newid ac felly mae adegau wedi bod pan wyf wedi meddwl, "Gobeithio byddant yn brysio." Mae'r ansicrwydd o beidio gwybod beth oedd yn mynd i ddigwydd nesaf, pan oedd angen i mi ddechrau cael pethau'n barod ar gyfer yr adeiladwyr, wedi achosi straen. Pan nad



ydych yn cysgu'r nos, mae'r math yma o beth yn mynd trwy eich meddwl. Rydych yn teimlo eich bod mewn limbo."

# Modelau Arfer Da

Yn Adolygiad Gwariant 2021, cyfeiriwyd at arfer da yn ymwneud â phroses. Amlygodd yr adolygiad integreiddio timau a defnyddio aseswyr dibynadwy wedi eu recriwtio, eu hyfforddi a'u goruchwylio'n gywir ar gyfer mân addasiadau. Arweiniodd hyn at brosesau cyflymach mwy cydlynus ac wedi eu symleiddio. Soniodd y broses hefyd fod gwelliannau wedi cael eu gwneud trwy sicrhau bod caffaeliad yn digwydd trwy gontractwyr neu gytundebau fframwaith dibynadwy.

Nodweddion allweddol gwasanaeth da yw ei fod yn gyson ar draws meysydd a deiliadaethau ac, o ganlyniad, yn un sydd yn sicrhau bod holl ddefnyddwyr y gwasanaeth yn cael lefel debyg o wasanaeth.

Mae gwasanaeth da yn un sydd yn pwysleisio cydgynhyrchu trwy gynnwys y rheiny sydd yn ei dderbyn yn ystod pob cam. Mae hyn yn cynnwys y sgyrsiau cychwynnol sydd yn sefydlu angen a chanlyniadau dymunol i gyfranogiad wrth ddylunio a gweithredu'r addasiad. Caiff hyn ei ategu gan gyfathrebu da, sydd yn helpu'r rheiny sydd yn cael addasiadau i ddeall yn well yr amser y mae'n ei gymryd i'w gosod.

Mae astudiaethau achos yr awdurdodau lleol canlynol yn enghreifftiau o arfer da y byddem yn hoffi eu gweld yn cael eu hefelychu ar draws Cymru.

## Cyngor Conwy

Mae Therapyddion Galwedigaethol (OT) sydd wedi eu lleoli yn y tîm grantiau yng Nghonwy yn derbyn yr holl atgyfeiriadau gofal lliniarol ar unwaith. Nid yw'r atygfeiriadau yn mynd ar y rhestr aros yn unig; ymatebir iddynt o fewn 2 i 3 diwrnod. Pan na fydd yr OT yn y gwaith bydd yr OT sydd ar ddyletswydd yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn casglu'r atgyfeiriadau hyn gan sicrhau bod ymateb ar unwaith bob amser. Mae eu hymateb arferol fel a ganlyn:

Gwneir atgyfeiriadau i Dîm Gwelliannau i'r Cartref Conwy trwy'r OT Cymunedol. Gwneir cyswllt wedyn o fewn 2 ddiwrnod ac fel arfer bydd apwyntiad ymweliad â'r cartref yn cael ei wneud o fewn wythnos

Mae'r apwyntiad cyntaf weithiau'n cael ei gynnal ar y cyd â'r syrfëwr technegol lle y bo'n bosibl ond os nad yw hyn yn digwydd, gall y syrfëwr y sicrhau trosiant cyflym ar ôl eu hasesiad.

O ganlyniad, gall syrfëwr technegol gwblhau dyluniad o fewn wythnos a bydd wedyn yn ei ddyrannu i'r contractwyr. Mae'r syrfëwr yn gwybod baich gwaith y contractwyr ac felly bydd yn dyrannu fel arfer i'r rhataf – neu'r ail rataf yn seiliedig ar allu i ymateb yn gyflym.

Mae'r contractwyr fel arfer yn dod yn ôl o fewn pythefnos gyda phris a gall gosod ramp gymryd 2 i 3 wythnos ac ystafell wlyb gymryd tua 2 fis.

## Cyngor Bwrdiestref Sirol Caerffili

Mae blaenoriaethu ar gyfer dyrannu asesiad mewn Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwneud â'r rheiny sydd â'r angen mwyaf neu'r risg mwyaf.

Ceir 3 blaenoriaeth:

**Blaenoriaeth 1**

Mae hyn yn cynnwys achosion lle mae ymyrraeth yn hanfodol i hwyluso rhyddhau o'r ysbyty a/neu lle mae gan gleientiaid broblemau ymdrin cymhleth sydd yn cyflwyno perygl sylweddol i'r cleient a/neu i ofalwyr. Mae hyn hefyd yn cynnwys cleientiaid â salwch terfynol a phrognosis cyfyngedig iawn. Mae'r angen i ymyrryd yn gynnar yn hanfodol i alluogi rhywun i barhau/dychwelyd i'r gymuned.

**Blaenoriaeth 2**

Mae hyn yn cynnwys cleientiaid â chyflyrau niwrolegol sydd yn dirywio'n gyflym, gyda chyfres o broblemau cymhleth, lle mae perygl cymedrol i annibyniaeth ac yn galluogi rhywun i aros yn y gymuned.

**Blaenoriaeth 3**

Mae hyn yn cynnwys cleientiaid sydd â phroblemau gyda gweithgareddau byw o ddydd i ddydd lle mae bygythiad i annibyniaeth, ond gellir rheoli'r risg. Ymdrinnir â'r ceisiadau hyn yn nhrefn y dyddiad er mwyn sicrhau gwasanaeth teg i holl drigolion y fwrdeistref.

Mae DFG yn cael eu prosesu ar restr aros yn ôl trefn dyddiad caeth.

Fodd bynnag, ceir rhai amgylchiadau eithriadol lle gellir derbyn argymhelliad fel blaenoriaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r meini prawf hyn fel a ganlyn:

1. Rhyddhau o'r ysbyty lle mae ymyrraeth yn hanfodol i hwyluso rhyddhau ac i atal oedi wrth drosglwyddo gofal.
2. Salwch terfynol
3. Materion trin â llaw gyda pherygl sylweddol i'r cleient a/neu'r gofalwr.
4. Adnewyddu neu ailddodrefnu tŷ ar fin cael ei wneud fyddai'n effeithio ar y gwaith addasu
5. Lle na ellir cyflwyno pecyn gofal nes bod y mân addasiadau wedi cael eu gwneud.

# Awgrymiadau Ychwanegol

Cododd Adolygiad Gwariant 2021 awgrym a wnaed yn un o'i weithdai rhanddeiliaid y gallai Safonau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru rannu graddfeydd amser disgwyliedig yn ôl maint yr addasiadau ac yna rhannu'r graddfeydd amser ar gyfer addasiadau canolig a mawr yn ôl yr amser y dylai ei gymryd i weld OT a'r amser cwblhau wedi hynny. Mae'r Adolygiad yn nodi bod rhai rhanddeiliaid wedi ei ystyried yn hanfodol mesur yr amser y mae'n ei gymryd i asesiad OT ddigwydd am y gall hyn amrywio'n sylweddol ar draws Cymru. Fodd bynnag, roedd rhai'n dadlau bod yr anghysondeb hwn o ganlyniad i rai Awdurdodau Lleol yn profi prinder mwy acíwt o therapyddion galwedigaethol nag eraill.

Gellir ond sicrhau'r effeithiolrwydd gorau posibl trwy gyd-fynd â Safonau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru a chysondeb wedi ei warantu ar draws Cymru.

# Casgliad

Mae Addasiadau Tai yn chwarae rôl hanfodol yn sicrhau llesiant ac annibyniaeth pobl sydd yn byw gydag MND. Fodd bynnag, mae'n glir bod y system prawf modd ar gyfer gwaith bach i ganolig yn dal i gael ei ddefnyddio ar draws llawer o awdurdodau lleol, er gwaethaf canllawiau gan Weinidogion i'r gwrthwyneb.

Ymddengys bod diffyg dealltwriaeth ar draws llawer o Swyddogion awdurdodau lleol ynghylch y rheolau a'r canllawiau y gellir eu cymhwyso yn ogystal â chyfleoedd ariannu amgen sydd ar gael.

Mae hyn wedi arwain at lawer o bobl sydd yn byw gydag MND yn gwario llawer iawn o'u harian neu eu cynilion eu hunain lle nad oedd angen iddynt fod wedi gwneud hynny. Mae llawer o bobl sydd wedi talu ar gam am addasiadau bach a chanolig bellach yn methu fforddio addasiadau mawr.

Yn yr un modd, nid oes unrhyw gysondeb ar gyfer llwybr cyflym ar gyfer addasiadau ar draws Awdurdodau Lleol Cymru. Er bod llwybr cyflym yn digwydd yn 14 o 22 o Awdurdodau Lleol Cymru, nid yw'r meini prawf ar gyfer digwyddiad o'r fath yn cael ei gymhwyso'n unffurf gan arwain at loteri côd post ar gyfer gwasanaethau. Trwy gydol yr adroddiad hwn, mae'r straeon a'r profiadau personol sydd wedi cael eu hamlygu yn cynrychioli lledaeniad daearyddol ar draws Cymru gyfan.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae MND yn lladd traean y bobl o fewn blwyddyn a thros hanner o fewn dwy flynedd. Mae'r oedi a brofir wrth gael addasiadau i dai yn amddifadu pobl o amser gwerthfawr gyda'u hanwyliaid gan fod MND yn effeithio ar eu hannibyniaeth.

Er gwaethaf y pryderon hyn, ceir enghreifftiau o arfer da mewn nifer o awdurdodau a dylid gwneud pob ymdrech i efelychu'r rhain ar draws Cymru.

Mae elfennau eraill o arfer da wedi cael eu nodi, yn cynnwys integreiddio timau a defnyddio aseswyr dibynadwy wedi eu recriwtio, eu hyfforddi a'u goruchwylio yn gywir ar gyfer mân addasiadau yn ogystal â threfniadau caffael a chyd-adeiladu gyda'r rheiny sydd yn cael yr addasiadau.

Nid yw pobl yn gallu gwneud cais am addasiadau hyd nes eu bod eu hangen. Pan fydd pobl sydd yn byw gydag MND yn cyrraedd y cam hwn, mae angen addasiadau arnynt yn gyflym gan fod MND yn glefyd sydd yn datblygu'n gyflym. Fodd bynnag, nid yw'r system yn caniatáu ar gyfer hyn, gan fod cyflymder y cynnydd yn araf. Yn aml iawn, erbyn bod yr addasiadau wedi eu gosod, mae'r clefyd wedi datblygu ymhellach i lefel arall lle mae'r angen am addasiadau sydd wedi eu cymeradwyo wedi cael eu disodli gan rai mwy cymhleth.

> "Cafodd Pete ddiagnosis o MND yn 2020. Mae wedi bod yn gaeth I'r un ystafell ers colli'r defnydd o'I goesau ym mis Awst 2020. Yn anffodus, bu farw Pete ym mis Medi 2021 tra'n dal i aros i'r addasiadau gael eu gosod."
>
> **Selina**

"Rwy'n credu y dylai fod system lle mae'r ymgynghorydd yn hysbysu'r awdurdodau lleol pan fyddwch yn cael diagnosis o MND. Mae'n anochel bod pobl ag MND yn mynd i waethygu. Nid yw'n fater o os, ond pryd. Mae anghenion pobl o ran cymorth yn mynd i gynyddu ac nid oes pwrpas aros nes eu bod wedi cyrraedd y pen. Pe byddai ffordd o gyfuno iechyd a gofal cymdeithasol o'r cyfnod diagnosis, rwy'n credu y byddai'n arbed llawer iawn o amser."

**Grahame**

mnda
motor neurone disease association
cymdeithas clefyd motor niwron


**Motor Neurone Disease Association**
Francis Crick House
6 Summerhouse Road
Moulton Park
Northampton
NN3 6BJ

Tel: 01604 250505
Email: campaigns@mndassociation.org
**www.mndassociation.org**

**/mndcampaigns**

**@mndcampaigns**



Registered with FUNDRAISING REGULATOR

Elusen gofrestredig rhif 294354 © Cymdeithas MND 2021